# Paratoi llysiau

## Trosolwg

Mae’r safon hon yn ymwneud â pharatoi llysiau i’w defnyddio mewn prydau wedi’u coginio neu heb eu coginio, er enghraifft:
• cloron – tatws, artisiogau neu datws melys
• gwreiddlysiau – pannas, moron
• fflurbennau – blodfresych, brocoli
• dail – bresych, letys

Byddwch yn paratoi’r llysiau drwy:
• olchi
• plicio
• torri – sleisio, torri a mân-dorri
• blansio

Mae’r safon hon yn canolbwyntio ar y wybodaeth a’r sgiliau technegol y mae eu hangen i baratoi llysiau; fodd bynnag, dylid ei hasesu yng nghyd-destun ehangach arferion gweithio diogel a hylan. Argymhellir cyfeirio at yr NOS canlynol, a ddewisir am eu bod yn briodol i’r rôl ac i’r sefydliad, ar y cyd â’r sgiliau a’r wybodaeth dechnegol ar gyfer y safon:
• Cynnal diogelwch bwyd sylfaenol mewn arlwyo
• Cynnal diogelwch bwyd mewn amgylchedd cegin
• Rhoi cyngor sylfaenol ar alergenau i gwsmeriaid
• Lleihau risg alergenau i gwsmeriaid

Pan fyddwch chi wedi cwblhau’r safon hon, byddwch chi’n gallu dangos eich dealltwriaeth o’r canlynol, a’ch gallu i:
• Baratoi llysiau

## Meini prawf perfformiad

*Rhaid i chi allu:*

1. Gwirio bod y llysiau yn addas i gael eu paratoi
2. Dewis yr offer, y cyllyll a’r cyfarpar cywir i baratoi llysiau
3. Defnyddio’r offer, y cyllyll a’r cyfarpar yn gywir wrth baratoi llysiau
4. Paratoi’r llysiau i fodloni’r gofynion
5. Storio’n ddiogel unrhyw lysiau sydd wedi’u paratoi ond na fyddant yn cael eu defnyddio ar unwaith

## Gwybodaeth a dealltwriaeth

*Mae angen i chi wybod a deall:*

1. Sut i storio llysiau wedi'u rhewi a heb eu rhewi cyn eu paratoi
2. Beth ddylech chi chwilio amdano i wneud yn siŵr bod pob math o lysieuyn yn addas i'w baratoi
3. Pam dylech chi roi gwybod am unrhyw broblemau gyda'r llysiau, ac i bwy
4. Yr offer a'r cyfarpar cywir ar gyfer pob dull paratoi
5. Pam mae'n bwysig defnyddio'r offer a'r cyfarpar cywir
6. Sut dylech chi gyflawni pob dull paratoi yn gywir
7. Y gofynion storio cywir ar gyfer llysiau sylfaenol na fyddant yn cael eu bwyta ar unwaith

## Cwmpas/Ystod

**1. Llysiau**

1.1 cloron

1.2 gwreiddlysiau

1.3 fflurbennau

1.4 dail

1.5 ffrwyth-lysiau

1.6 coesynnau

1.7 bylbiau

1.8 ffyngau sylfaenol

**2. Dulliau paratoi**

2.1 golchi

2.2 plicio

2.3 torri (sleisio / torri / mân-dorri)

2.4 blansio

PPL1PC1

Paratoi llysiau

| | |
|---|---|
| **Datblygwyd gan** | People 1st |
| **Fersiwn rhif** | 3 |
| **Dyddiad cymeradwyo** | 01 Maw 2022 |
| **Dyddiad Adolygu Dangosol** | 28 Chwef 2027 |
| **Dilysrwydd** | Ar hyn o bryd |
| **Statws** | Gwreiddiol |
| **Sefydliad cychwynnol** | People 1st |
| **RCU gwreiddiol** | PPL1PC1 |
| **Galwedigaethau perthnasol** | Cogydd, Cynorthwy-ydd cegin |
| **Cyfres/Set** | Lletygarwch - Coginio Proffesiynol |
| **Geiriau Allweddol** | paratoi, llysiau |